



Eich cyf/Your ref: P-05-1147
Ein cyf/Our ref: KW/01328/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

5 Mawrth 2021

Annwyl Janet

Diolch am eich gohebiaeth mewn perthynas â P-05-1147, sy'n cyfeirio at y gofyniad i bob ysgol ddarparu addysgu dyddiol byw / wedi'i gofnodi i bob disgybl nad yw'n dychwelyd i'r ysgol.

Sylweddolaf nad oes unrhyw beth yn gallu cymryd lle dysgu wyneb yn wyneb yn uniongyrchol, a'n bod i gyd wedi gorfod addasu yn y cyfnod heriol hwn ac ystyried gwahanol ffyrdd o ddysgu. Rydym wedi rhoi ystod o fesurau ar waith i gefnogi dysgu o bell gan gynnwys dysgu proffesiynol helaeth, buddsoddiad sylweddol mewn dyfeisiau a'r Rhaglen Dysgu Carlam gwerth £29 miliwn i [recriwtio, adfer a chodi safonau](#) yn ysgolion Cymru.

Er mai awdurdodau lleol ac ysgolion sy'n gyfrifol am ddarparu dysgu o hyd, fe'u hanogir i ddefnyddio'r modelau cyflwyno mwyaf priodol yn seiliedig ar eu gofynion unigol ac anghenion eu dysgwyr. Yn dilyn adborth gan ysgolion ac awdurdodau lleol, diweddarwyd canllawiau Llywodraeth Cymru ar 7 Ionawr i ddileu nifer yr ymarferwyr sydd eu hangen ar gyfer ffrydio byw er mwyn caniatáu hyblygrwydd a phenderfyniadau lleol (mae mwy o wybodaeth yn ddolen isod).

[Ffrydio byw a fideogynadledda: arferion ac egwyddorion diogelu](#)

Wrth ddatblygu eu dull ar gyfer ffrydio'n fyw, rhaid i ysgolion gynnal asesiad risg ac adolygu eu prosesau a'u gweithdrefnau diogelu er mwyn sicrhau diogelwch eu dysgwyr a'u staff. Dylai ysgolion hefyd barhau i roi sylw dyledus i'r canllawiau diwygiedig er mwyn sicrhau diogelu effeithiol, sy'n parhau i fod yn egwyddor annatod o ddysgu digidol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Cymru mewn sefyllfa dda iawn i gefnogi ysgolion, ymarferwyr a dysgwyr yn ystod y cyfnod hwn gan fod gennym [Hwb](#), ein llwyfan digidol cenedlaethol ar gyfer dysgu ac addysgu. Mae Hwb yn rhoi mynediad i'w ddefnyddwyr at amrywiaeth o offer ac adnoddau dwyieithog, digidol am ddim. Mae ein [cymorth dysgu o bell ar Hwb](#) yn cynnwys adnoddau i gefnogi gweithgareddau dysgu o bell yn ogystal â dolenni i gyngor ar iechyd a lles. Mae llwyfan Hwb Llywodraeth Cymru hefyd ar gael i ddysgwyr drwy Xbox a PlayStation: https://twitter.com/WG_Education/status/1323691431626760192?s=20.

Rwy'n cydnabod yr heriau parhaus sy'n wynebu pob dysgwr a'u teuluoedd o ganlyniad i'r pandemig. Yn ddiweddar, rydym wedi sefydlu Gweithgor Dysgu Cyfunol, sy'n cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol, a gofyn iddynt fynd i'r afael â materion yn ymwneud â mynediad cyfartal i ddysgu mewn cyfnodau o darfu yn y dyfodol a byddwn ymgysylltu â rhieni a dysgwyr. Rydym yn croesawu adborth i wella cymorth o bell yn y dyfodol i ddysgwyr drwy YouTube, a byddwn yn rhannu unrhyw syniadau a gawn gyda'r grŵp hwn. Yn ogystal, efallai eich bod yn ymwybodol bod rhai sianeli teledu eisoes yn cynnig cymorth ychwanegol i ddysgwyr gyda dysgu gartref gan gynnwys y [BBC](#) ac [S4C](#).

Rwy'n eich sicrhau fy mod yn deall bod y misoedd diwethaf wedi bod yn straen ac yn heriol i lawer o ddysgwyr ac rwy'n cydnabod yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael, ac yn parhau i'w chael, ar ein dysgwyr. Mae'n amlwg nad yw llawer o ddysgwyr wedi datblygu cymaint ag y byddent o ran eu dysgu, ac rydym yn gwybod nad yw'r effaith wedi bod yn unffurf, gan fod y tarfu wedi effeithio'n anghymesur ar rai dysgwyr.

Rydym yn archwilio pa fesurau ychwanegol y gallwn eu cymryd i fynd i'r afael ag amser dysgu a gollwyd ac yn gweithio'n agos â'n partneriaid addysg i ddatblygu'r mesurau hyn, a byddwn yn cyhoeddi Cynllun Adfer Dysgu maes o law a fydd yn amlinellu'r rhain yn fanwl. Mae pob opsiwn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan gynnwys dychwelyd fesul cam, gweithredu rotâu ac addasu dyddiadau tymhorau. Mae llawer o'r opsiynau sy'n cael eu hystyried yn sicrhau bod ysgolion hefyd yn gallu cadw at weithrediadau'r ysgol.

Bydd y Cynllun Adfer Dysgu yn nodi ein cynlluniau hirdymor i gefnogi pob dysgwr i adfer o'r pandemig, a bydd yn ystyried sut y gallwn gefnogi'r grwpiau penodol hynny, fel y rhai sydd mewn blynyddoedd arholiad, y mae'r tarfu wedi effeithio fwyaf arnynt. Fel rhan o'r cynllun hwn, byddwn yn ystyried camau gweithredu a chymorth ar gyfer lles dysgwyr ac athrawon, gan ein bod yn cydnabod bod y rhain yn elfennau pwysig ar gyfer dysgu ac yn hanfodol ar gyfer adfer.


Byddwch yn ymwybodol o'r cyhoeddiadau diweddar yr ydym wedi'u gwneud ynglŷn â dychwelyd i ddysgu yn yr ysgol yn ofalus ac yn raddol, gan ddechrau gyda'n dysgwyr ieuengaf o 22 Chwefror. Y nod yw gweld pob disgybl cynradd yn dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb o 15 Mawrth ymlaen, ynghyd â rhai dysgwyr hŷn fel blynyddoedd 11 ac 13 mewn ysgolion a'r rhai sy'n gwneud cymwysterau mewn colegau, a fydd yn dychwelyd i batrwm dysgu cyfunol. Bydd rhywfaint o hyblygrwydd hefyd i ddysgwyr blynyddoedd 10 a 12 ddychwelyd.

Ar ben hynny, cyhoeddais gynlluniau ar 3 Mawrth i fwy o ddisgyblion Cymru gael cyfle i ddychwelyd i'r dosbarth cyn toriad y Pasg. Fe wnes i gadarnhau y bydd ysgolion yn cael cyfle i groesawu dysgwyr blynyddoedd 7, 8 a 9. Y nod yw rhoi cyfle i ddysgwyr weld eu hathrawon, gan ganolbwyntio ar faterion lles a pharatoi i ddychwelyd i'r ysgol ar ôl gwyliau'r Pasg. Bydd rhywfaint o hyblygrwydd i ysgolion ddewis sut i roi hyn ar waith, ac efallai y bydd yn cymryd rhai diwrnodau cyn iddynt fod mewn sefyllfa i gyfathrebu eu cynlluniau i rieni a dysgwyr.

Mae'r penderfyniadau hyn, fel arfer, yn seiliedig ar y cyngor meddygol a gwyddonol diweddaraf sydd ar gael. Yn yr achos hwn, mae hyn yn cynnwys diweddariadau gan y Grŵp Cyngori Technegol, a gyhoeddodd [bapur](#) ar 5 Chwefror lle nodwyd bod y gwelliant yn sefyllfa iechyd y cyhoedd yn golygu bod modd i ni ystyried "dychwelyd yn rhannol ac yn raddol i ddysgu wyneb yn wyneb mewn ysgolion", a [chyngor](#) a roddwyd i'r Prif Weinidog gan Dr Frank Atherton, ein Prif Swyddog Meddygol.

Rwy'n eich sicrhau chi yr hoffwn weld pob dysgwr yn ôl yn yr ystafell ddosbarth cyn gynted ag y bydd yn ddiogel gwneud hynny. Fodd bynnag, blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig hwn o hyd yw diogelwch a lles myfyrwyr, staff ysgolion a'r gymuned ehangach, yn ogystal ag addysg barhaus ein dysgwyr. Yn y cyfamser, felly, byddaf i a'm swyddogion yn parhau i weithio gyda'n holl bartneriaid i sicrhau bod dysgwyr yn cael y ddarpariaeth ddysgu orau bosibl mewn amgylchiadau sy'n parhau i fod yn eithriadol o anodd.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams', written in a cursive style.

Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education